# CAN NEWYDD

UNIV. COLL. OF S. WALES & MON.
SALISBURY LIBRARY

AR Y

MESUR A ELWIR, "NEW PRINCESS ROYAL."

ARGRAPHEDIG YN CAERLLEON GAN ROGER ADAMS.

1731.



UNIV. COLL. OF
SALISBURY
LIBRARY
S. WALES & MON.

# DWY O
# GERDDI
## NEWYDDION.

*Yn Gyntaf.* Can Newydd, am y ddaear-gryn, a ddigwyddodd ar y Nos *Wener* cyntaf ym Mis *Medi* diweddaf, 1775. *Ar mentra Gween.*

*Yn Ail.* Ychydid Ddyriau ar yr yſtyriaeth o'n Breuol ni a byrdra Oes Dyn; Ar y meſur a elwir *Loath to depart*, neu Anodd ymadel.



UNIV. COLL. OF S. WALES & MON. SALISBURY LIBRARY

# Y MESUR A ELWIR
## "NEW PRINCESS ROYAL."

I.

GWYR a gwragedd dowch ynghyd,
Hyna', jeüenga', brafia o bryd:
Clywch hanes mab bonheddig llon
Aeth i deithio o'r wlad hon,
Ffordd i wledydd oedd digred,
Gadawai ei wlad, i fynd ar led.

II.

I wlad y ffez *Morocco* 'r aeth,
Bu arno yno gyflwr caeth;
Wrth rodio 'r wlad nid rhad na rhwydd,
Cymerai 'r *Twrciaid* e'n eu swydd,
Rhoddasant ef mewn carchar cry'.
Mynegaf ichwi fel y bu:

III.

Wylo 'r dagre i lawr yn llyn.
Yn y carchar somgar syn,
Dymunai fod 'n ei wlad yn ol,
Lle bod ymhlith rhai mor ddirol.

Lawr i'r feler ddu cadd fynd,
Lle nid oedd pofibl gweled ffrind.

IV.

Y mab bonddigedd llariedd llon,
Hwn oedd heb gudd yn bradd i fron,
Mab oedd heb braw' yn lan o bryd,
Carcharwr oedd ef yno o hyd,
O'r carcharorion daeth refiw,
Fo oedd hawddgara' lana' ei liw.

V.

Fe ddaeth un yno 'n llon i'r llu,
Sef merch y brenin atto fu,
Can wel'd mor lân o bryd a gwedd,
Ffanfiodd hon y mab mewn hedd,
Yn ei chalon yn ddi gudd,
Ag eifiau cael y mab yn rhydd.

VI.

Yn y dyngiwn yn gla' roddd e' dan glo,
Y ferch ofynnai iddo fo
Oedd ganddo fodd i'w brynnu 'n rhydd;
A'r dagre 'n rhedeg lawr ei grudd.
Dywedai ynte wrth y fun
Fod ganddo fât 'n ei wlad ei hun,

Bodlon

VII.

Bodlon wyf i roi fy ſtât
Os caf I fynd i dir fy ngwlad,
I'm canlyn I nid oes yn wir,
Nag aur, nag arian, bwyd, na bir:
Na dim arall yn wir nid oes,
Ofni' rwyf mai byr yw f' oes.

VIII.

Y ferch rinweddol yno ddai,
A bara â diod iddo hi a roi;
A mentro a ddarfu hon yn hy',
Agoriade y cloeau y carchar cry',
A hi a ollyngai y mab yn rhydd,
A'i gyrchu heb braw' o'r carchar prudd.

IX.

Yno d'wedai 'r ladi braf,
Yn briod cym'raf chwi os caf.
Chwi eiff yn glân i dir eich gwlad,
Na anghofiwch mono fi drwy wad:
Ym mhen faith mlynedd gwedded gwiw
Byddaf finne ichwi 'n driw.

X.

Gwneuthur ammod a wnaeth y ddau,
A'r ladi giwa yn ledio 'n glau,

Pan

Pan ddae 'r ſaith mlynedd maith i ben,
Y gwnaent brïodi i'll dau heb ſen ;
Dywedai 'r ferch oedd lon ei gwedd,
Am goſio 'r ammod hynod hedd.

XI.

Hyn o amſer oedd mor hir,
Fo anghofiai ei ſeren ſir.
Pan ddaeth ſaith mlynedd i'w coffhau,
Prïodi un arall yn wir fe wnai
Cadw neithior iddo 'fe,
A phawb yn llawen iawn eu lle.

XII.

Rhyw ferch jeüanc yno ddaeth,
Cnoccio wrth y drws hi wnaeth.
Y gwas agorai iddi hi,
Fe welai 'n ffraeth ryw ladi ffri,
Hi ofynnai iddo 'n hy'
Oedd ei feiſtr yn y ty.

XIII.

Dywedai'r gwas yn ſiwr ei fod,
A'i brïod gyd ag ef trwy glod
Yn cadw neithior yno 'n iawn,
Er y bore, a thrwy 'r prydnhawn ;
Gyda'r miwſig y mae fo
Yn pryſur ddawnſio treio tro.

Dywedwch

XIV.

Dywedwch wrth eich meistr clir,
Am ddanfon imi fara a'i fir,
A pheidio anghofio'r ferch y fu
'N ei ol yn ef o'r carchar cry',
A ferch rodd ei bywyd yn ddigon hy,
'N ei gael e'n rhydd o'r dyngiwn du.

XV.

At ei feistr y gwas fo aeth,
A gore 'n ffri mewn geiriau ffraeth,
Mewn agwedd hy' mynegai hyn,
Dechreuai ei feistr fynd yn fyn.
Ac wrth ei briod dywydai 'n hy'
Y cai hi fyned ffordd y bu.

XVI.

Am ei chorph nid oedd e' waeth,
'Roedd e'n ffri a'r fenir ffraeth,
Ar farch y dowch chwi yma 'n ffol,
Yn eich coach and fix cewch fynd yn ol,
Bai yn wir oedd arnaf fi,
Am dorri geiriau 'rioed a thi.

XVII.

I ffordd yr aeth y brïod ferch,
Ar ol priodi a foddi o'i ferch,

Dim

Dim count am dani mwy nid oes,
Am y ferch heini yn ei hoes,
A'r hen gariad priodi a wnai,
A byw yn glen efo 'r feinir glau.

XVIII.

Wel dyna 'r ftori heini hardd,
O'ch blaen chwi 'n rhwydd fel cadd y bardd;
Yn rhodd na fernwch ana 'n faith,
Ewch gynta o'm gwydd i fendio 'r gwaith.
Dim help nid oes fy mhen fydd wan,
You may do better if you can.

T E R F Y N.

UNIV. COLL. OF S. WALES & MON. SALISBURY LIBRARY